"A phwy bynnag sy'n achos cwymp i un o'r rhai bychain hyn sy'n credu ynof fi, byddai'n well iddo fod wedi ei daflu i'r môr â maen melin mawr ynghrog am ei wddf."
(Marc 9:42)

Dyma ymadrodd sy'n dangos llymder a thynerwch Iesu yn yr un gwynt. Mae'n awyddus i warchod y 'rhai bychain', ac wrth wneud hynny, mae'n rhoi rhybudd chwyrn i unrhyw un fydd yn eu cam-drin.

Achos cwymp

Y gair Groeg am 'achos cwymp' yw ***scandalon*** sydd wedi arwain at y gair 'scandal' yn Saesneg, ac yn Gymraeg erbyn hyn hefyd. Roedd y gair Groeg yn cael ei ddefnyddio am y pren oedd yn dal yr abwyd mewn magl. Wrth i anifail fynd am yr abwyd, byddai'r pren yn symud a'r fagl yn cau amdano. Felly, mae difetha ffydd rhywun gwan yn debyg i'w ddal mewn magl angeuol, peth difrifol iawn yng ngolwg Iesu.

Osgoi cwymp

Yn fersiwn Mathew o'r darn bach yma daw'r geiriau ychwanegol: **"Gwae'r byd oherwydd achosion cwymp; y maent yn rhwym o ddod, ond gwae'r sawl sy'n gyfrifol am achos cwymp"** (Math.18:7).

Mae'r Arglwydd yn cyhoeddi dwy 'wae':

Gwae i'r byd oherwydd ffaith anochel achosion cwymp; y ffaith fod y diafol yn temtio ac yn baglu pobl i bechu a cholli ffydd a hyder yn Nuw.

Gwae i berson sydd yn gyfrwng yn llaw'r Un drwg, fel petai, i faglu rhywun arall. Dydy'r ffaith fod maglau i'w cael ddim yn esgus i ni arwain neb atyn nhw!

Y rhai bychain

Pwy yw y rhai bychain mae'r Arglwydd yn sôn amdanynt, felly? Daw'r ateb i ni wrth i ni edrych ar y ddau baragraff blaenorol.

Yn 38-41 mae Ioan yn adrodd yn ôl i'r Meistr eu bod wedi gwahardd rhywun oedd yn bwrw allan gythreuliaid yn enw Iesu ond nad oedd yn teithio gyda nhw. Mae'r disgybl bach yma wedi cael ei rwystro rhag cario mlaen â'i waith gwych o fwrw allan gythreuliaid, o ennill tir i deyrnas Iesu Grist, oherwydd nad oedd y lleill yn ei nabod; am nad oedd yn un o'r 'criw' neu'r 'clique' canolog. Ond fe gofiwn fod Iesu wedi dweud wrth rai fel y dyn o Gadara i aros yn ei fro a sôn am waith Crist yn ei fywyd. Mae'n bosibl bod hwn wedi dod i gredu yn

Iesu wrth wrando arno a heb gael cyfle i siarad yn bersonol ag ef. Mae'n siŵr fod hyn yn dipyn o gnoc i'w hyder a'i ffydd. Mae'r peth yn blino'r Arglwydd ac mae'n rhybuddio'r disgyblion i beidio â gwneud hyn.

Yn 33-37 mae'r disgyblion wedi bod yn cael trafodaeth frwd ar y ffordd i Gapernaum. Testun y drafodaeth oedd pa un ohonyn nhw oedd y mwyaf. Efallai y mwyaf o ran ffydd; neu yr un oedd wedi bod yn ddisgybl am y mwyaf o amser; o bosib, pwy oedd y mwyaf agos at Iesu, neu eto pwy oedd y mwyaf dawnus efallai. Dyma'r math o bethau sy'n ein baglu ni yn ein balchder heddiw, beth bynnag!

Wrth eu dysgu, mae'r Arglwydd yn gosod plentyn bach yn eu canol, ac yn dweud bod derbyn un bach felly yn enw Crist, yn golygu derbyn Crist. Felly, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn rhag meddwl yn fawreddog am ein hunain, a rhag meddwl dim ond am wasanaethu'r mawrion yn enw Iesu. Roedd temtasiwn i'r disgyblion i feddwl fod Iesu ei hun yn rhy brysur i dderbyn plant bach a'u bendithio; roedd ganddo oedolion pwysicach i ymwneud â nhw. A gallwn ni yn ein heglwysi feddwl am ennill pobl o 'sylwedd' i'n rhengoedd gan anghofio'r 'rhai bychain'. Gwae ni!

Maen melin

Roedd dau fath o faen melin yn gyffredin yn nyddiau'r Testament Newydd. Roedd melin fach y byddai'r gwragedd yn defnyddio â llaw i falu cyn coginio, neu faen melin mawr trwm oedd angen asyn i'w droi. Wrth gwrs, sôn mae Iesu am y maen melin mawr.

Mae hanesyn gan Suetonius, hanesydd Rhufeinig, am Yr Ymerawdwr Augustus: *'am fod tiwtoriaid a gweision ei fab Gaius wedi manteisio ar salwch eu meistr ac wedi dangos hyfdra a thrachwant mawr, fe'u bwriwyd i afon gyda phwysau mawr am eu gyddfau.'* Mae'n amlwg, felly, fod hyn yn ffordd arferol o foddi rhywun yn y cyfnod yma.

Pob credadun

Mae hyn yn ein hatgoffa fod pob crediniwr yn werthfawr yng ngolwg yr Arglwydd Iesu, fel yr un sy'n rhoi cwpaned o ddŵr oer i rywun yn ei enw. Mae pob dafad o'r praidd yn werthfawr i'r Bugail sydd wedi marw drosti. Onid oes llawenydd yn y nef am bob pechadur sydd yn edifarhau?